

Cynllun Efe

Cefais groeso cynnes yng nghynhadledd Gristnogol *Word Alive* yng ngwersyll Pontins ym Mhrestatyn ddydd Llun wrth i mi sôn am waith Cynllun Efe. Cawsom addewid o arian o gasgliadau'r wythnos.

Roedd yno gannoedd o bobl yn y ddau gyfarfod y cefais fy holi ynddyn nhw am waith Efe. Roedd yn braf cael cyfle i ddweud am y gwaith y mae Efe wedi ei wneud dros y blynyddoedd. Braff iawn hefyd oedd cael cwmni Andrew yno wedi iddo gynnig dod efo mi.

Fel y soniais y Sul diwethaf roedd yn gyfle i ofyn i'r bobl oedd yno i weddio dros waith Efe dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf. Pwy a wŷr ym mha ffordd y bydd Duw yn bendithio'r gwaith os bydd cannoedd o bobl yn ymuno â ni i weddio'n gyson drosto?

Bydd y casgliad a wnaed nos Fawrth y gynhadledd yn cael ei rannu rhwng Efe a dwy elusen arall a *Word Alive* ei hun.

Ond y gwir ydi, faint bynnag o arian a gawn ni byddai cael cefnogaeth weddi cyfran dda o'r bobl a glywodd am ein gwaith yn rhodd fwy gwerthfawr fyth. Roedd y croeso cynnes a gawsom a'r diddordeb a ddangoswyd yn y gwaith yn awgrymu y gallwn fod yn hyderus o gael y gefnogaeth honno. Daliwn ninnau yn lleol i weddio dros y gwaith wrth gwrs.

Y mis nesaf - Deiniolen

Ebrill 16 (Sul y Pasg)

5.00 p.m. - Mr Robert Morris

Ebrill 23

5.00 p.m. - Mr Charles Jones, Llanrug

Ebrill 30

5.00 p.m. - Mr Richard Lloyd Jones

Y Ffordd

Cynhelir cyfarfod nesaf 'Y Ffordd' yn festri Carmel nos Fercher, Mai 10.

Cyfarfod Chwarter

Cynhelir Cyfarfod Chwarter Annibynwyr Gogledd Arfon yn Salem Caernarfon, am 7.00 o'r gloch, nos Fercher, Ebrill 26.

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Sul, Ebrill 23: Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan Mr Charles Jones.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Dydd Sul, Ebrill 23: Cynhelir Oedfa Deulu am 10.30 o'r gloch. Bydd hon yn oedfa Fedydd.

REHOBOTH

Dydd Sul, Ebrill 23: Ni fydd oedfa.

BETHLEHEM

Dydd Sul, Ebrill 23: Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

CARMEL

Dydd Sul, Ebrill 23: Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

CYNLLUN EFE

Dydd Llun, Ebrill 17: Ni chynhelir y Cyfarfod Gweddi.

Y mis nesaf - Llanberis

Ebrill 16 (Sul y Pasg)

10.00 a.m. - Y Parchg Euros Jones

Ebrill 23

10.30 a.m. - Oedfa Deulu

Ebrill 30

10.00 a.m. - Mrs Nerys Griffith

11.15 a.m. - Ysgol Sul

5.00 p.m. - Mr Dewi Jones



Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las
Rhif 725: Sul y Pasg, 16 Ebrill, 2017

Yr olygfa orau

Yr olygfa dros Lyn Llydaw o gopa'r Wyddfa yw'r orau yng ngwledydd Prydain yn ôl a gyhoeddwyd y dydd o'r blaen. Ymhlith y deg golygfa a ddaeth i'r brig yn yr arolwg a gyhoeddwyd gan gwmni rhyngwladol sydd ymhlith pethau eraill yn cynhyrchu camerâu, mae pump yn Lloegr, tair yn Yr Alban ac un yng Ngogledd Iwerddon. Mae'n debyg y byddai rhai ohonoch yn credu fod yna olygfeydd eraill cystal os nad gwell yma ac acw yn y fro hardd hon sy'n gartref i ni. Ond gan ei bod wastad yn braf gweld Cymru ar y brig, wnawn ni ddim cwyno'n ormodol am y tro.

Nid yn annisgwyl, mae llynnoedd a môr a mynydd i'w gweld mewn wyth o'r deg golygfa a restrir yn yr arolwg. Côr y Cewri (Stonehenge) yn Ne Lloegr a Phalas San Steffan (Westminster Palace) dros Bont San Steffan yw'r ddwy olygfa arall. Roedd yr arolwg wedi ei wneud, mae'n debyg, cyn y lladdfa a gaed ar y bont honno ar Fawrth 22 eleni. O gofio digwyddiadau erchyll y dydd Mercher hwnnw, nid prydfferthwch yw'r peth cyntaf a ddaw i'r meddwl ar hyn o bryd wrth weld y bont a'r Palas ond cur a phoen diangen y bobl a anafwyd ac a laddwyd ar y bont honno.

Er prydfferthd yr Wyddfa a Dyffryn Glencoe a Bae St Ives mae yna olygfa harddach na'r un ohonynt i ni edrych arni heddiw, a hithau'n Sul y Pasg. Nid môr na mynydd, nid afon na llyn,

nid hyd yn oed balas yw'r olygfa hon, ond bedd. O gofio erchylltra'r dydd Gwener hwnnw y bu farw Iesu, nid prydfferthwch yw'r peth cyntaf a ddaw i'r meddwl ond cur a phoen yr Un a groeshoeliwyd. Ac er bod teyrngarwch Joseff o Arimathea i Iesu yn amlwg wrth iddo osod ei gorff yn y bedd, doedd y bedd hwnnw ddim yn hardd. Sut allai bedd a ddaliai gorff y Meseia a wrthodwyd ac a laddwyd fod yn brydfferth? Galar, tristwch a diwedd oedd y bedd hwnnw i gyfeillion Iesu.

Ond stori wahanol oedd hi fore'r Pasg. Chwiliwch y ddaear gron i gyd; chewch chi ddim golygfa brydfferthach na'r bedd gwag a welodd y gwagedd a disgyblion Iesu'r diwrnod hwnnw. Wedi'r siom a'r loes, wedi'r golled a'r galar, mae'r bedd yn wag. Cyfrinach prydfferthwch yr olygfa hon yw nad oes, ar wahân i'r cadachau a lapiwyd am gorff Iesu, unrhyw beth o gwbl i'w weld. Roedd Iesu ei hun yn fyw. Roedd o wedi marw, ond daeth yn ôl yn fyw.

Y bedd gwag oedd y prawf cyntaf i'r disgyblion fod hynny wedi digwydd. Yn ddiweddarach, cawsant gadarnhad o'r ffaith pan ddaeth Iesu atynt. Ond nid oes rhaid ei weld; mae'r bedd gwag yn fwy na digon o brawf fod Iesu wedi trechu marwolaeth. A thrwy syllu mewn ffydd ar y bedd gwag y daw gobaith y cawn ninnau ryw ddydd ein hatgyfodi i'r bywyd tragwyddol.

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnysaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Balm o Salm



'Chwi gedyrn, a ydych mewn
difri'n dedfrydu'n gyfiawn? A
ydych yn barnu pobl yn deg? **BEIBL BYW**
Na! Yr ydych â'ch calonnau'n dyfeisio
drygioni, ac â'ch dwylo'n gwasgaru trais
dros y ddaear' (Salm 58:1-2).

Heddiw

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00
o'r gloch gan y Parchg Euros Wyn Jones,
Llangefni.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 5.00 o'r
gloch gan Mr Robert Morris, Penygroes.

Gwasanaethir yn Llanllechid am 5.00 o'r
gloch gan y Parchg Dewi T Morris,
Porthmadog.

Gwasanaethir yn yr oedfa yn Nhalybont
am 2.00 o'r gloch gan y Parchg Harri
Parri, Caernarfon.

Nid oes oedfa yn Nant Peris.

Diolch i bawb sy'n arwain yr odfaon.

Cofion

Anfonwn ein cofion at bawb sydd heb
fod yn dda, ac yn arbennig at bawb sy'n
methu â dod i'r oedfa ar hyn o bryd.

Marwolaeth

Bu farw Mrs Olive Jones, 1 Hafod Oleu,
Deiniolen yn Ysbyty Eryri ddydd Llund
diwethaf, Ebrill 10. Roedd wedi bod yn
yr ysbyty ers pum mis yn dilyn y godwm
a gafodd yn ei chartref ddechrau mis
Tachwedd. Cydymdeimlwn yn ddwys
â'i mab Terry a'i deulu, â'i chwirydd
Phyllis a Gwennie, ac â Sian Elen a Huw
ei wyres a'i wŷyr.

Cynhelir ei hangladd yn yr Amlogfa ym
Mangor ddydd Mercher, Ebrill 19 am
1.30 o'r gloch.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Mrs Madge Davies,
Ffordd Capel Coch, Llanberis yn ei
phrofedigaeth o golli ei chwaer, Mrs
Laura Parry-Jones, yng Nghaernarfon.

Cyfarfod Eglwysig

Cynhelir Cyfarfod Eglwysig arbennig i
holl aelodau Ebeneser am 7.00 o'r gloch
nos Fawrth, Mai. Fe ddylai pob aelod
fod wedi derbyn llythyr erbyn hyn i'w
hysbysu am y cyfarfod hwn, ac apeliwn
ar bawb i ddod iddo os medrant.

Bedydd

Fore Sul diwethaf, bedyddiwyd Noa
Cledwyn Jones, mab Llifton a Bethan
Jones, Cwm-y-glo. Dymunwn yn dda i'r
teulu ac edrychwn ymlaen fel eglwys at
gael rhan yn magwrfu ysbrydol Noa.

Coleg y Bala

Mae'n bryd dechrau meddwl am y Cwrs
Plant a fydd gennym ar y cyd â Gofalaeth
Llanrug yng Ngholeg y Bala ym mis
Mai. Dyddiadau'r cwrs yw pnaewn
Gwener, Mai 13 hyd ddydd Sul, Mai 15.

Bydd y penwythnos hwn ar gyfer plant 8
i 12 oed. Mae croeso cynnes i blant yr
Ofalaeth gyfan i ymuno â'r criw a fydd
yn mynd i'r Bala.

SLAM (Sbort, Lles A Mwy)

Noson a diwrnod o chwaraeon ar gyfer
pobl ifanc 11 i 14 oed yw SLAM. Fe'i
cynhelir yng Nghanolfan Tŷ'n Y Nant,
Abererch nos Wener a dydd Sadwrn, Mai
5-6.

Trefnwyd gan Andrew Settatee a'i
frawd John. Beth yw SLAM?
Sbort - chwaraeon o bob math
Lles - anogaeth i fyw yniach
A Mwy - cyfle i holi a dysgu am Dduw

Cost y penwythnos fydd £35.

Mae croeso i bobl ifanc fynd yno nos
Wener yn unig neu ddydd Sadwrn yn
unig os na fedrant aros dros nos.

Cewch ragor o fanylion gan y
Gweinidog. Ffopniwch 01286 872390.

Llanw

Bydd Gŵyl Llanw yn cael ei chynnal yng
Nghricieth YR WYTHNOS HON.

Bydd yn cychwyn nos yfory, nos Lun,
Ebrill 17 ac yn para tan nos Iau.

Fore Mawrth, Mercher ac Iau, y Parchg
John Treharne, Llwynhendy (Caersalem,
Caernarfon gynt) fydd yn pregethu.
Bydd y cyfarfodydd hyn yn cychwyn am
10.00 o'r gloch.

Gyda'r nos, o nos Lun hyd nos Iau, bydd
oedfaon am 7.00 o'r gloch. Dyma'r
drefn:

Nos Lun: Dathliad i'r teulu cyfan yng
ngofal Menna Machraeth, Caernarfon.

Nos Fawrth: Arfon Jones, Caerdydd,
Cyfieithydd beibl.net

Nos Fercher: Dr Rhiannon Lloyd, sydd
wedi gweithio ymmaes cymod ar draws y
byd.

Nos Iau: Rhun Murphy, sy'n weinidog
yn Wrecsam a Ponciau.

Bydd gwahanol seminarau yn ystod y
prynhawn. A cheir oedfaon mawl bob
gyda'r nos, ac amrywiaeth o bobl yn eu
harwain ac yn annerch ynddyn nhw.

LLANW

Cricieth

O nos Lun i nos Iau yr wythnos hon (Ebrill 17 - 20)

Cyfarfodydd y bore am 10.00 o'r gloch

Cyfarfodydd yr hwyr am 7.00 o'r gloch